

# Gwers yr ynys unig a'r ddinas ddiffaith

## Ile bu digonedd

**Yr Athro Gareth Wyn Jones yn rhybuddio rhag gor-hyder yn ein gallu ein hunain ... 'A ydan ni wedi dysgu gwersi? Chwedl Ifas y Tryc – 'sgersli bilif'.'**

ERS cenedlaethau ac ymhell cyn y Chwyldro Diwydiannol a'r naid ryfeddol yn ein niferoedd, roedd dynoliaeth wedi llwyddo i addasu a chartrefu ym mhob man ar wyneb Daear bron. Yr eithriad oedd, ac yw, Antarctica.

Rydau ni a'n chwain yn unigryw ac yn medru byw ar rew'r Arctig, yn ucheldiroedd yr Andes a'r Himalaya, yn niffeithwch y Sahara a'r Gobi ac yn fforestydd llaith Affrica a De America, heb sôn am yr ardaloedd cymedrol.

Rydau ni wedi defnyddio ein dyfeisgarwch i addasu a chreu technolegau a ffyrdd o oresgyn anawsterau di-ri. Llwyddwyd i hwylio'r moroedd mewn cychod sy'n ymddangos yn hynod o fregus, gyda'r Polynesiaid yn cyrraedd bron holl ynysoedd y Cefnfor Tawel gannoedd o flynyddoedd cyn i ni'r Ewropeaid fentro.

Y fwyaf pellennig oedd Rapa Nui - Ynys y Pasg, ynys y penddelwau mawr. Ond yr ynysoedd olaf i'w darganfod gan y Polynesiaid oedd Aotearoa, sef Seland Newydd i ni, a hynny yng nghyfnod Llywelyn ein Llyw Olaf.

### DYFODIAD DYN A DIFRODI COEDWIGOEDD

Er hynny, mae yna elfennau du yn llwyddiant ein hil wrth oresgyn y blaned. Yn aml iawn, mae perthynas agos rhwng dyfodiad dyn a diflaniad anifeiliaid mawr a dinistrio coedwigoedd i greu tir â'r ac i bori anifeiliaid.

Heb hyn, wrth gwrs, fyddai hi ddim yn bosib i'r boblogaeth dyfu. Y dybiaeth yw bod 80% o Aotearoa yn goedwig cyn i'r Polynesiaid gyrraedd. Nawr mae tua 20 i 25 % ar ôl - tebyg iawn i'r hyn ddigwyddodd yng Nghymru dros filoedd o flynyddoedd.

Mae sawl awdur profiadol yn credu mai'r enghraifft fwyaf trawiadol a dadlennol o effaith dyn yw Rapa Nui, ynys unig sydd 2,000km o'r ynys agosaf a 3,000km o arfordir De America a llai na hanner maint Môn. Ar ôl cyrraedd, eto yn debygol yn Oes y Tywysogion, dechreuwyd torri'r coed tal a gor-ddefnyddio adnoddau naturiol. Erbyn tua 1600 doedd yna ddim coed da ar ôl i adeiladu cychod pysgota. Mae arwyddion fod brwydro mewnol wedi bod a thybir i'r boblogaeth syrthio o 15,000 i ddwy neu dair.

O ran cwmp cymdeithas, y lle a gafodd yr argraff fwyaf 'arna' i yn bersonol oedd olion dinas odidog Palmyra, gwerddon rhwng Damascus a'r Ewffrates. Yn ystod cyfnod Iesu, roedd Palmyra'n gyfoethog, yn niferus a grymus a'u brenhines, Zenobia, yn un o ffigyrau mawr yr hen fyd.

Ond daeth rhyfeloedd a gor-ymestyn amgylcheddol. Dinistriwyd eu hadnoddau naturiol a bu cwmp. Er bod yr olion yn wefreiddiol, mae'r bryniau cyfagos yn foel a'r ffynhonnau'n hesb. Nid mieri lle bu mawredd ond diffeithwch lle bu digonedd.

### HYDERUS O ANORCHFYGOL

A oes gwersi i ni yn ffawd trigolion Ynys y Pasg, Palmyra a'u tebyg? A oes cymhariaeth rhwng 7 biliwn ohonon ni, ar blaned gyfyng, unig, yn y gofod a hen wareiddiadau ar 'ynysoedd' mewn môr neu ddiffeithwch?

A ydan ni'n ddigon hirben i osgoi ffawd Rapa Nui? A yw'r gyffelybiaeth yn deg gan ein bod yn byw mewn cymdeithas fyd-eang, wyddonol, dechnolegol, gyfrifiadurol, resymegol - gyda galluoedd na feddai brodorion Rapa Nui na Palmyra?

Mae'n siŵr fod trigolion Rapa Nui a Phalmyra ar eu hanterth yn teimlo'n hyderus o anorchfygol – yn hyderus o'u gallu i addasu. Nid felly y bu.

Mae digonedd o enghreifftiau o gymdeithasau'n tyfu a gor-ymestyn ac o ddylanwadau newid hinsawdd, daeargrynfeydd a phlâu yn newid cwrs hanes. A ydan ni wedi dysgu gwersi? Chwedl Ifas y Tryc – 'sgersli bilif'.

*Ôl-nodyn: Mae papur yn y cylchgrawn **Nature** [25/06/2013] yn awgrymu, yn sgil diflaniad tymhorol iâ Cefnfor yr Arctig ger Siberia, bod peryg o chwydiad nwy methane o wely'r môr - digwyddiad a allai gostio \$60 triliwn i'r byd - mwy hyd yn oed na'r \$21 triliwn sydd gan y gwir gyfoethog mewn hafanau di-dreth.*